**Bydd Cadwch Gymru'n Daclus yn cefnogi digwyddiad codi ysbwriel** yn y gymuned ar **Fawrth y 10fed**. Os hoffech chi gynnig help llaw, byddwn yn cyfarfod y tu allan i'r **Spar** am **10.00yb**. Bydd menig, gwasgodau hi-viz ac ati ar gael. I wybod mwy, cysylltwch â Liz ar **750 246**

## Gwobr i Gynghorydd Lleol

**Bu i'r Cyng. Liz Roberts** dderbyn gwobr uchel ei bri am ei gwaith fel **Hyrwyddwr Y Lluoedd Arfog yn y Gymuned.** Derbyniodd Liz y **Wobr Cyfamod** mewn seremoni fawreddog yn **Stadiwm Dinas Caerdydd**. Bu hi'n rhan flaenllaw ar y cyd â'r pwyllgor cyfamod i ofalu y caiff gofynion cyn-filwyr a'u teuluoedd eu bodloni.



**Da iawn Liz, rydym ni i gyd yn falch iawn ohonot ti.**

# SINEMA'R PENTREF
## Gwyddelan Ystafell






## VERY ANNIE MARY

**Rachel Griffiths** **Jonathan Pryce**

Comedi ysgafn i gynhesu calon a osodwyd yng Nghymru gydacast Gymraeg yn bennaf. Gyda digon o ganu, hefyd!

**16eg Mawrth 7.00yh**

## On the Black Hill

Stori dros bedwar ugain mlynedd ym mywydau efeilliaid Cymreig gyda bond cryf wrth iddynt ymdopi â brwydrau ac anghydfod yn ymwneud â gwleidyddiaeth, rhamant, teulu a thir fferm.

**20eg Ebrill 7.00yh**





Hugh Grant

## The Englishman Who Went Up a Hill But Came Down a Mountain

Rhaid i fapiwr Saesneg ddweud wrth drigolion pentref Cymreig mai bryn yn unig yw eu mynydd!

**25ain Mai 7.00yh**